# Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Pherthyn adroddiad cynnydd

## 2024-2025

**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

www.rwcmd.ac.uk

# Cyflwyniad

## Mae'r Coleg wedi parhau i ddatblygu ei ymrwymiad i Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Pherthyn, gan adeiladu ar yr uchelgeisiau a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2025.

Ar draws llywodraethu, addysgu, recriwtio, ymgysylltu â'r gymuned a phrofiad myfyrwyr, mae'r Coleg wedi gweithio i ymgorffori arferion cynhwysol a chael gwared ar rwystrau i gyfranogiad.

Mae ein gwaith eleni wedi canolbwyntio ar gryfhau cynrychiolaeth mewn strwythurau gwneud penderfyniadau, ehangu gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned, gwella arferion cynhwysol ar draws recriwtio a datblygu staff, a pharhau i wneud ein hamgylcheddau ffisegol a digidol yn fwy hygyrch.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae'r flwyddyn hefyd wedi amlygu pwysigrwydd gwella arferion casglu data, datblygu meincnodau cliriach o ran effaith, a chryfhau dulliau adrodd i helpu i gynllunio camau gweithredu ar sail tystiolaeth.

Symphony Orchestra, llun gan Kirsten McTernan



# Myfyrwyr

## Dysgu ac addysgu cynhwysol

Mae'r adrannau wedi parhau i ehangu amrywiaeth ymhlith yr artistiaid, ymarferwyr ac ymgynghorwyr sy'n cyfrannu at addysgu drwy weithdai, dosbarthiadau meistr a phrosiectau cydweithredol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyflwyno myfyrwyr i ystod ehangach o safbwyntiau creadigol wrth ymgorffori arferion cynhwysol yn y cwricwlwm.

Mae enghreifftiau yn yr adran Gynllunio yn ystod 2024–25 yn cynnwys y coreograffydd June Campbell Davies, Cyswllt Artistig gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, yn gweithio gyda myfyrwyr ar y prosiect *Celf Wisgadwy*. Gwnaeth y Coleg hefyd gydnabod Shubhra Nayar, sylfaenydd *The Great Elephant Migration*, fel Cymrawd y Coleg ar sail ei gwaith creadigol ac amgylcheddol rhyngwladol.

Mae gwaith ymgynghori cynhwysol hefyd wedi llywio cynyrchiadau'r myfyrwyr. Cynorthwywyd y cynhyrchiad pypedau *Spawn* gan ymgynghoriaeth ar ran y Gymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru i sicrhau cynrychiolaeth sensitif o deulu Tsieineaidd-Cymreig, a chan Steph Bailey-Scott, Rheolwr Mynediad, Cynhwysiant a Chyfranogiad yn Theatr Taking Flight, i gynghori ar fynediad i bobl Fyddar a'r rhai trwm eu clyw.

Y maes addysgu drama, roedd sesiynau dan arweiniad Jenn Jacob Evans yn archwilio dulliau o 'ddad-ryweddu' ystafelloedd gwisgo ac ymgorffori ystyriaethau agosatrwydd mewn ffitiadau gwisgoedd, gan gynorthwyo'r myfyrwyr i ddatblygu arferion cynhyrchu cynhwysol sy'n osgoi atgyfnerthu rhagdybiaethau rhywedd deuaidd.

Mae themâu cynhwysol hefyd yn cael eu hadlewyrchu mewn prosiectau addysgu. Bu prosiect dylunio BA1 yn gweithio gyda'r dramodydd Isley Lynn, y mae eu gwaith yn archwilio anghydraddoldeb rhywedd, perthnasoedd cwiar a phrofiadau menywod.

# Astudiaeth Achos:
# Partneriaeth Craidd – Ymgorffori Mynediad a Chynhwysiant mewn ymarfer creadigol

**Rydym yn bartner ym menter Craidd, sef cydweithrediad rhwng sefydliadau celfyddydol a diwylliannol Cymru sydd â'r nod o gryfhau mynediad, cynhwysiant a chynrychiolaeth ar draws y sector.**

Mae'r bartneriaeth yn hybu cyd-ddysgu, cyd-greu ac integreiddio profiad bywyd i'r broses o wneud penderfyniadau ac mewn ymarfer creadigol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae *Asiant dros Newid* Craidd y Coleg wedi bod yn mynychu ymarferion technegol yn Theatr Clwyd i adolygu agweddau mynediad a synhwyraidd cynyrchiadau. Caiff yr hyn a ddysgir o'r arsylwadau hyn ei rannu â staff academaidd, timau cynhyrchu a myfyrwyr yn CBCDC, gan helpu i lywio'r addysgu, cynllunio cynyrchiadau a chydweithrediadau arfaethedig. Wrth wneud hynny, mae egwyddorion hygyrchedd a dylunio cynhwysol yn cael eu hymgorffori fwyfwy yn hyfforddiant gweithwyr proffesiynol sy'n dod i'r amlwg ym maes theatr.

Mae'r bartneriaeth hefyd wedi helpu i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc anabl trwy gyfres o weithdai creadigol a gynhaliwyd gan y Coleg. Wedi'u cynnal gan gyn-fyfyrwyr ac ymarferwyr creadigol sydd â phrofiad bywyd o anabledd, roedd y sesiynau hyn yn cyflwyno'r cyfranogwyr i wahanol arferion creadigol gan ddarparu modelau rôl gweladwy yn y celfyddydau. Creodd y gweithdai ofod cefnogol i bobl ifanc archwilio mynegiant artistig ac ennill hyder wrth ddysgu mwy am lwybrau i addysg a gyrfaoedd creadigol.

Yn ogystal, treialodd y Coleg ddulliau newydd o berfformio hygyrch yn ystod cynhyrchiad *The Adventures of David Copperfield*. Cyflwynwyd taith gyffwrdd cyn perfformiad yn Theatr Bute. Roedd y daith yn galluogi aelodau'r gynulleidfa ag amhariad ar eu golwg i archwilio elfennau'r set, y gwisgoedd a'r propiau drwy gyffwrdd cyn i'r perfformiad ddechrau. Wedi'i datblygu mewn cydweithrediad â'r tîm Rheoli Llwyfan, roedd y fenter hefyd yn rhoi profiad ymarferol i'r myfyrwyr o roi mesurau hygyrchedd ar waith mewn amgylchedd cynhyrchu byw.



# Myfyrwyr

## Mynediad a recriwtio myfyrwyr

Mae'r Coleg yn parhau i fonitro recriwtio yn erbyn targedau sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gyda ffocws ar gynyddu cyfranogiad ymhlith myfyrwyr sy'n byw yn y Deyrnas Unedig o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Caiff data recriwtio ei adolygu drwy'r grŵp Recriwtio Myfyrwyr, gan ein galluogi i adnabod tueddiadau'n gynnar a thargedu ymyriadau lle bo angen. Yn ystod 2024–25 dechreuwyd gwaith i gryfhau dulliau dadansoddi ac adrodd data derbyniadau er mwyn gwella dealltwriaeth o gynrychiolaeth ar draws nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Coleg yn parhau i gasglu a dadansoddi data sy'n ymwneud â recriwtio, cynnydd a chyflawniad. Yn 2024–25, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar wella cywirdeb a chysondeb y data er mwyn galluogi camau gweithredu wedi'u targedu lle'r oedd anghydraddoldebau i'w gweld. Fodd bynnag, mae'r Coleg yn cydnabod yr angen i ddatblygu fframweithiau dadansoddol mwy cadarn i helpu i wneud penderfyniadau strategol a sicrhau bod mentrau recriwtio yn trosi'n welliannau mesuradwy o ran mynediad. Mae gwaith dadansoddi hydredol yn dechrau rhoi dealltwriaeth gliriach o dueddiadau yng nghanlyniadau myfyrwyr a bydd hyn yn llywio'r gwaith cynllunio at y dyfodol.

Yn y cyfamser, bu'r Tîm Recriwtio Myfyrwyr yn gweithio i wneud digwyddiadau recriwtio yn fwy cynhwysol drwy sicrhau bod canllawiau hygyrchedd yn fwy gweladwy a chynnig sgyrsiau grŵp llai i ddarpar fyfyrwyr a allai brofi gorlwytho synhwyraidd a'r rhai a allai fod yn bryderus ymhlith grŵp mawr.

# Myfyrwyr

## Casgliadau llyfrgell cynhwysol

Ym mlwyddyn academaidd 2024/25, fe wnaethom weithredu polisi rheoli casgliadau Llyfrgell newydd. Mae'r polisi hwn yn egluro sut rydym yn rheoli'r deunydd sydd gan y llyfrgell. Mae wedi'i ddylunio fel bod amrywiaeth, cynhwysiant, tegwch a pherthyn yn ffactorau arweiniol yn y ffordd rydym yn caffael adnoddau ac yn eu gwneud ar gael. Er enghraifft:

- Rydym yn mynd ati i gaffael deunydd sy'n cynrychioli lleisiau sydd wedi'u tangynrychioli'n hanesyddol, gan helpu ein casgliadau i adlewyrchu amrywiaeth byd y celfyddydau perfformio yn well.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda myfyrwyr a staff i adolygu beth sydd yn ein casgliadau, gan wrando ar adborth a chanfod lle gall cynrychiolaeth gael ei gwella.
- Rydym yn gwneud dewisiadau cynhwysol wrth ddewis adnoddau newydd, gan feddwl yn ofalus am bwy sy'n cael eu cynrychioli, pa mor hygyrch yw pob fformat, ac anghenion defnyddwyr â nodweddion gwarchodedig.
- Rydym yn ymdrin â chynnwys sydd wedi dyddio neu gynnwys sensitif yn gyfrifol, gan ddefnyddio nodiadau cynnwys yn y catalog ac ar eitemau, gan eu hadleoli neu eu tynnu lle bo'n briodol, ond heb sensro deunydd sydd â gwerth addysgol neu hanesyddol parhaus.
- Rydym yn hyrwyddo lleisiau amrywiol mewn arddangosfeydd a deunyddiau addysgu'r llyfrgell.

# Staff

## Llywodraethu a chynrychiolaeth

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Coleg adolygu cyfansoddiad y pwyllgorau academaidd i gryfhau cynrychiolaeth ac ehangu safbwyntiau yn y modd y caiff penderfyniadau eu gwneud.

Mae'r aelodaeth wedi'i hehangu i gynnwys cynghorwyr allanol fel aelodau o fenter Craidd i bwyllgor Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Pherthyn a chynrychiolaeth o blith Staff a Delir Fesul Awr sydd ag arbenigedd mewn cydraddoldeb a chynhwysiant.

Mae'r Coleg yn cydnabod yr heriau o ran sefydlu llinell sylfaen gywir o ddata nodweddion gwarchodedig, yn enwedig lle mae datganiad yn parhau i fod yn wirfoddol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrechion i wella arferion casglu data, gan gynnwys gwahodd pob aelod i ddiweddaru eu manylion drwy iTrent, y system wybodaeth i staff. Fodd bynnag, mae’r cyfraddau ymateb yn parhau i fod yn gymharol isel, ac mae datganiadau ar draws y pwyllgorau yn dal i fod yn anghyson. Bydd y Coleg yn parhau i ystyried dulliau i hybu tryloywder a chyfranogiad, gan barchu dewis unigolion yn llawn ynghylch datgeliad personol a chynnal ymddiriedaeth a chyfrinachedd.

# Staff

## Datblygu staff a diwylliant sefydliadol

Mae rhaglen sefydlu strwythuredig wedi'i chyflwyno, gan gynnwys gwybodaeth bwrpasol am gydraddoldeb, amrywiaeth ac arferion cynhwysol i sicrhau bod gan bob aelod newydd o staff sylfaen gyson. Yn ogystal, mae diwrnodau datblygu staff wedi darparu hyfforddiant wedi'i dargedu ar strategaethau addysgu cynhwysol, gwrth-hiliaeth, a dulliau adferol o ddatrys gwrthdaro.

Mae carfannau pellach o staff wedi cwblhau hyfforddiant ymarfer adferol, gan roi offer ymarferol i dimau i'w helpu i gyfathrebu'n gynhwysol, rheoli gwrthdaro'n adeiladol, a chryfhau cydweithio ar draws adrannau. Mae staff hefyd wedi elwa o gydweithrediadau sy'n canolbwyntio ar sectorau fel partneriaeth Craidd, sy'n hybu dysgu ar y cyd ynghylch hygyrchedd ac arferion cynhwysol mewn lleoliadau theatr proffesiynol, gan atgyfnerthu meddylfryd cynhwysol ar draws adrannau.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar strategaeth newydd Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Pherthyn yn ystod sesiwn datblygu staff a oedd wedi'i threfnu. Trefnwyd y sesiwn o amgylch meysydd thematig allweddol y strategaeth, gyda thrafodaethau wedi'u strwythuro i alluogi staff i adolygu blaenoriaethau, rhoi adborth, a dyfnhau eu dealltwriaeth o sut y bydd y cynllun yn cael ei weithredu'n ymarferol.

# Cymuned

## Diwylliant ac ymgysylltiad cynhwysol

Mae sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau sy’n cael eu gwasanaethu gan y Coleg wedi bod yn ffocws allweddol yn ystod 2024–25.

Mae gweithdai a phrosiectau perfformio wedi cynnwys cyfranogwyr o amrywiaeth o grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys mentrau sy'n archwilio creu cerddoriaeth yn gynhwysol ac arferion perfformio hygyrch. Mae prosiectau creadigol wedi ymgorffori dulliau fel dehongli Iaith Arwyddion Prydain a phypedwaith hygyrch.

Yn ogystal, mewn partneriaeth â Parkinson's UK, gwnaeth y Coleg sefydlu Côr Good Vibrations, sef côr Parkinson's wythnosol sy'n darparu manteision cymdeithasol, corfforol ac emosiynol i’r cyfranogwyr. Mae myfyrwyr yn cyfrannu'n weithredol at weithdai, gan ddatblygu sgiliau hwyluso cynhwysol wrth gefnogi llesiant cymunedol.

Music Matters 2026, llun gan Kirsten McTernan



# Cymuned

## Partneriaethau cymunedol

Mae'r Coleg yn parhau i gryfhau perthnasoedd â sefydliadau cymunedol i ehangu ymgysylltiad a hybu llwybrau mwy cynhwysol i addysg y celfyddydau.

Yn ystod 2024–25 dechreuodd y Partner Ymgysylltu â’r Gymuned ddatblygu cyfres o gytundebau partneriaeth â sefydliadau cymunedol allweddol sy'n gweithio ar draws y celfyddydau, cynhwysiant anabledd a chymorth cymunedol, gan gynnwys:

- **Côr Un Byd Oasis**
- **TAN Arts**
- **UCAN**
- **Hijinx**
- **The Wallich**
- **Cyngor Hil Cymru**

Nod y partneriaethau hyn yw cryfhau cysylltiad y Coleg â chymunedau amrywiol wrth gefnogi mynediad ehangach at gyfleoedd creadigol a llwybrau i addysg uwch.

# Astudiaeth Achos: Llesiant cymunedol: Côr Good Vibrations

**Mae'r Coleg yn cydnabod y rôl bwysig y gall cyfranogiad yn y celfyddydau ei chwarae wrth hybu iechyd a lles o fewn cymunedau lleol.**

Mewn partneriaeth â Parkinson's UK, gwnaeth CBCDC sefydlu Côr Parkinson's wythnosol sy'n cael ei gynnal yn y Coleg.

Mae'r côr yn darparu lle croesawgar lle gall cyfranogwyr brofi'r manteision cymdeithasol, corfforol ac emosiynol sydd i gydganu.

Yn ganolog i'r fenter mae cyfranogiad myfyrwyr y Coleg, sy'n helpu'n weithredol yn y gwaith o gyflwyno gweithdai ochr yn ochr â staff. Mae'r myfyrwyr yn cynorthwyo gyda chynhesu, arweinyddiaeth gerddorol

Music Matters 2026, llun gan Kirsten McTernan




ac ymgysylltu â'r cyfranogwyr, gan helpu i greu lle croesawgar a pharchus i bawb sy'n mynychu. Mae eu cyfranogiad nid yn unig yn cyfoethogi'r sesiynau ond hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr.

Drwy ymwneud yn uniongyrchol â chyfranogwyr, caiff y myfyrwyr fwy o ymwybyddiaeth o hygyrchedd, rhwystrau i gyfranogiad sy'n gysylltiedig ag iechyd, a phwysigrwydd ymarfer cynhwysol mewn lleoliadau celfyddydol. Mae'r profiad hwn yn helpu i feithrin meddylfryd mwy cynhwysol ac yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i weithio'n dosturiol ac yn effeithiol gyda chymunedau amrywiol drwy gydol eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

> **'Rwy'n defnyddio cerddoriaeth, yn enwedig canu, i ymgysylltu â chymunedau a dod â phersonoliaethau pobl i'r amlwg. Mae gweld y teithiau unigol y mae cyfranogwyr yn mynd arnyn nhw yn werth chweil i lefel na allaf ei disgrifio. Mae gweld yr holl wenau a'r llawenydd sy'n cael ei greu dim ond o ddefnyddio canu yn gwneud i rywun fod eisiau dod yn ôl dro ar ôl tro.'**
>
> Joshua Jones –
> Arweinydd y côr a chyn-fyfyriwr

# Cymuned

## Rhaglenni cyhoeddus a chreadigol

Mae gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn parhau i gyd-fynd ag ymgyrchoedd cydraddoldeb a mentrau ymwybyddiaeth cenedlaethol, ac mae hefyd yn adlewyrchu amrywiaeth yr artistiaid a'r lleisiau creadigol sy'n cael eu cyflwyno trwy raglen berfformio'r Coleg.

Mae dadansoddiad o raglen greadigol 2024–25 yn dangos cynrychiolaeth gref ymhlith artistiaid blaenllaw ac arweinyddiaeth greadigol. Yn y rhaglen gerddoriaeth, roedd 47% o'r prif artistiaid yn fenywod, gan gynnwys perfformwyr fel Kathryn Stott, Laura Cannell, Maria Włoszczowska, Gaëlle Solal, Catrin Finch ac Aoife Ní Bhriain, Rachel Podger a Norma Winstone. Roedd 25% o'r prif artistiaid yn artistiaid o liw, gan gynnwys Dennis Rollins, Debasmita Bhattacharya a Gurdain Ryatt, Sidiki Dembélé, Rakesh Chaurasia a Shahbaz Hussain, Sun-Mi Hong a Zara McFarlane.

Roedd rhaglen Cwmni Richard Burton hefyd yn dangos cynrychiolaeth gref mewn arweinyddiaeth greadigol, gyda 52% o gynyrchiadau wedi'u cyfarwyddo gan fenywod ac 16% wedi'u cyfarwyddo gan gyfarwyddwyr o liw. Yn ogystal, roedd 32% o gynyrchiadau yn seiliedig ar destunau a ysgrifennwyd gan fenywod.

Mae mentrau rhaglennu yn ystod y flwyddyn hefyd wedi hybu mwy o amrywiaeth ddiwylliannol mewn perfformiadau. Roedd hyn yn cynnwys ailgyflwyno cyngherddau Clasurol Indiaidd, a oedd wedi'u hoedi yn ystod cyfnod Covid-19. Cynhaliwyd y rhain yn bennaf mewn partneriaeth ag Asian Arts Agency ym Mryste.

Ochr yn ochr â'r gweithgarwch rhaglennu hwn, bu'r Coleg yn cynorthwyo digwyddiadau gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Pride, Blwyddyn Newydd y Lleuad a Mis Hanes Pobl Ddu, gan ddathlu amrywiaeth cymuned y Coleg ac annog deialog ynghylch tegwch a chynrychiolaeth.

# Cymuned

## Llogi allanol

Rhoddodd y rhaglen llogi gyfleoedd i ystod eang o sefydliadau diwylliannol a grwpiau cymunedol ddefnyddio cyfleusterau'r Coleg. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau a pherfformiadau yn cynnwys sefydliadau fel Gwobrau Cerddoriaeth Ddu Cymru, Côr Meibion Hoyw De Cymru, Corau Traws Caerdydd a'r Songbirds, UCAN, a Gŵyl Dawns Glasurol Indiaidd Samarpan Nrithyalaya, ynghyd â digwyddiadau a drefnwyd gan gymdeithasau Ffilipinaidd, Malaysiaidd ac Asiaidd Caerdydd. Drwy bartneriaethau â hyrwyddwyr ac asiantaethau allanol, cyflwynwyd artistiaid a chynulleidfaoedd newydd i'r Coleg hefyd, gan gynnwys cerddorion clasurol Indiaidd trwy SAMA, Indus Music a SAYA Arts, artistiaid Pwylaidd trwy Sherlock Events, a digwyddiadau cymunedol sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd Mwslimaidd trwy Asiantaeth 26.

Treasure Island, llun gan Kirsten McTernan



# Cymuned

## Ymgysylltu â'r sector ac ymrwymiadau sefydliadol

Mae'r Coleg yn parhau i ymgysylltu â fframweithiau cydraddoldeb cenedlaethol i gryfhau ei ymagwedd sefydliadol at gynhwysiant.

Yn ystod 2024–25, enillodd y Coleg, ynghyd â Phrifysgol De Cymru, Wobr Efydd Siarter Cydraddoldeb Hil AdvanceHE, gan gydnabod cynnydd wrth ganfod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hil mewn addysg uwch. Mae'r wobr yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan staff a myfyrwyr ac yn darparu fframwaith ar gyfer camau gweithredu pellach i hybu tegwch hil ar draws y sefydliad.

Romeo and Juliet, llun gan Kirsten McTernan



# Astudiaeth Achos: Y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol: Creu Cerddoriaeth Gynhwysol

**Mae'r Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol (NOYO) yn gerddorfa gynhwysol arloesol ar lefel fyd-eang sy'n dod â cherddorion anabl a cherddorion nad ydynt yn anabl rhwng 11 a 25 oed ynghyd i ymarfer a pherfformio cerddoriaeth glasurol gyfoes.**

Mae CBCDC, mewn partneriaeth â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, yn gartref i Ensemble NOYO Caerdydd. Mae'r rhaglen yn darparu cyfleoedd ensemble lefel uwch i gerddorion ifanc anabl trwy amgylchedd ymarfer a pherfformio hygyrch.

Mae'r rhaglen yn galluogi cerddorion ifanc anabl i ddatblygu eu sgiliau artistig ar lefel uwch wrth berfformio ochr yn ochr â chyfoedion nad ydynt yn anabl.

Mae hefyd yn herio rhagdybiaethau traddodiadol am berfformio cerddorfaol, gan ehangu'r ystod o offerynnau, synau a chynulleidfaoedd sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth glasurol gyfoes.

Ym mis Mai 2025 perfformiodd y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol yn Neuadd Hoddinott y BBC yng Nghaerdydd, gan ddod â cherddorion ifanc o bob cwr o'r Deyrnas Unedig ynghyd i roi perfformiad hamddenol a ddyluniwyd i fod yn hygyrch i gynulleidfaoedd niwroamrywiol ac anabl.

NOYO Class, llun gan Kirsten McTernan



**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

**www.rwcmd.ac.uk**